M20.01

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS

**Sesiwn Gwrandawiad Mater 20**

**Dydd Iau 20 Mai 2021**

## Fframwaith Monitro

**Datganiad Gwrandawiad gan Gyngor Sir y Fflint**

**30/04/21**

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030) Archwiliad Cyhoeddus

## Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 20:

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawiad yr Arolygwyr:

<table>
<tr><td>Mater Allweddol: A yw'r CDLl yn galluogi monitro digonol o'i effeithiolrwydd?</td></tr>
<tr><td>Ymateb:<br>1. Ydi. Mae'r CDLl i'w archwilio gan y cyhoedd yn cynnwys fframwaith monitro sy'n nodi cyfres o ddangosyddion monitro, targedau, pwyntiau sbardun a chamau gweithredu a fydd yn ffurfio sail monitro perfformiad y Cynllun yn y dyfodol. Mae'r dangosyddion hyn yn benodol ac yn fesuradwy ac yn cynnwys dangosyddion lleol a gynigiwyd gan y Cyngor a dangosyddion sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth ac yn gymwys i holl gynlluniau.<br>2. Yn ôl gofyniad Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn galluogi'r Cyngor i ganfod, yn seiliedig ar asesiad yn erbyn Dangosyddion Monitro dynodedig, os yw Amcanion Strategol y Cynllun yn cael eu cyflawni a bod y polisïau yn cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl. Os yw'n angenrheidiol bydd yr AMB yn amlinellu camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bolisïau sy'n tanberfformio.</td></tr>
<tr><td>Cwestiwn a) A oes targedau clir a chanlyniadau mesuradwy mewn lle ar gyfer monitro darpariaeth y datblygiad a safleoedd dynodedig a chyflawniad yr amcanion CDLl yn effeithiol?</td></tr>
<tr><td>Ymateb y Cyngor:<br>a. 1 Oes, mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys gwybodaeth glir a manwl mewn perthynas â dangosyddion, targedau, pwyntiau sbardun, camau gweithredu a chanlyniadau mesuradwy, er mwyn galluogi monitro darpariaeth y datblygiad a safleoedd dynodedig a chyflawniad amcanion CDLl yn effeithiol.<br>a.2 Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r Fframwaith er mwyn adlewyrchu'r canllawiau diwygiedig ar fonitro'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a gynhwysir yn Rhifyn 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Ers cyhoeddi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd ym Medi 2019, mae'r gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol fonitro eu cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a chynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, wedi cael ei dynnu. Cafodd Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN 1) ei ddirymu yn ei gyfanrwydd ym Mawrth 2020 a chafodd yr adran cyflenwad tai Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ei ddiwygio i dynnu'r gofyniad am gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae'r newid hwn wedi'i</td></tr>
</table>

| |
|---|
| sefydlu yn Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.<br>a.3 Yn unol â’r canllawiau newydd, cynigir diwygio’r Fframwaith Monitro er mwyn cyfeirio at y gofyniad i fonitro’r rhai sydd wedi’u cwblhau yn flynyddol ac yn gynyddol ers dechrau cyfnod y Cynllun, yn erbyn yr AABR yn y llwybr Tai CDLl, fel y nodwyd yn Nhabl 29 y Llawlyfr.<br>a.4 Yn ogystal â hynny, cynigir newid arall i eiriad y pwynt sbardun MI15 i adlewyrchu sylwadau a wnaed gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn ei adborth yn y cam i’w archwilio gan y cyhoedd (id411).<br>a.4 Mae Atodiad 1 sydd wedi’i atodi i’r adroddiad hwn yn cynnwys newidiadau arfaethedig y Cyngor i’r Fframwaith Monitro er mwyn adlewyrchu’r uchod, er bod y Cyngor yn cydnabod efallai y bydd angen newidiadau eraill i’r trefniadau monitro trwy’r broses archwilio. |
| **Cwestiwn b)** A yw’r sbardunau yn amserol ac a ydynt yn galluogi ymateb effeithiol mewn digwyddiad lle mae angen camau adferol**?** Yn benodol, sut fydd safleoedd ychwanegol yn cael eu dwyn ymlaen os oes diffyg cyson mewn cyflenwi tai? |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>b.1 Ydyn, lle bo’n berthnasol mae gan y dangosyddion amser penodol yn y targed neu sbardun, fel arall cânt eu hystyried yn flynyddol fel rhan o’r Fframwaith Monitro. Os oes gan bwyntiau sbardun allbynnau rhifyddol ac amser penodol, fel arfer defnyddir cyfnod o 2 flynedd olynol, yn unol â’r canllawiau ym mharagraff 8.6, Rhifyn 3 y Llawlyfr. Pe gweithredir sbardun, bydd y rhesymau dros hyn yn cael eu harchwilio yn drylwyr er mwyn penderfynu pa gamau fydd angen eu cymryd.<br>b.2 Fel eglurwyd yn yr ymateb i Fater 7, mae cyflenwad Tai y CDLl yn cynnwys elfen sylweddol o safleoedd wrth gefn (yn gyfystyr â lwfans hyblygrwydd o 14% a lwfans peidio â chyflawni o dros 23%), a ddylai sicrhau bod digon o safleoedd ar gael ar gyfer datblygu, er mwyn caniatáu ar gyfer oedi annisgwyl o ran darparu rhai safleoedd. Felly mae’r Cyngor yn ei gweld yn hynod o annhebygol y bydd diffyg parhaus mewn cyflenwad tai yn digwydd, yn arbennig gan fod y CDLl wedi darparu ychydig yn uwch na’r targed dros y pum mlynedd cyntaf. Bydd unrhyw safleoedd eraill at raid yn cael eu penderfynu trwy ganfyddiadau’r Adroddiad Monitro Blynyddol, a delir â hwy yn unol â’r camau adferol cysylltiedig mewn perthynas â’r mater hwnnw yn y Fframwaith Monitro. |
| **Cwestiwn c)** A oes trefniadau clir mewn lle i fonitro ac adrodd ar y canlyniadau? |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>c.1 Yn ôl gofyniad deddfwriaeth (ac fel yr amlinellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (Mawrth 2020) bydd y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol i’w gyhoeddi a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, lle bydd y Cyngor yn |

nodi os yw'r amcanion strategol a chynigion y cynllun yn cael eu cyflawni, ac os yw polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl (yn seiliedig ar asesiad yn erbyn y dangosyddion monitro, targedau a phwyntiau sbardun).

c.2 Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn amlinellu'r camau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bolisïau sy'n tanberfformio, gan gynnwys amrywiaeth o gamau posibl, o fonitro ychwanegol i adolygu'r Cynllun os oes angen, fel yr amlinellir yn Nhabl 30 Rhifyn 3 y Llawlyfr. Bwriad y Cyngor yw creu fframwaith adroddiad monitro blynyddol yn dilyn archwiliad, yn barod i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer monitro perfformiad y cynllun ar ôl ei fabwysiadu.

**Cwestiwn d)** A yw camau adferol wedi cael eu canfod?

**Ymateb y Cyngor:**

d.1Ydyn. Mae camau adferol wedi cael eu canfod a'u cynnwys yn y Fframwaith monitro
a chyfeirir atynt ym mharagraff 13.8 yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Mae'r camau adferol yn cynnwys:

- Monitro parhaus
- Hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer Swyddogion / Aelodau
- Canllawiau cynllunio atodol pellach sydd eu hangen
- Ymchwiliad / ymchwil pellach sydd ei angen
- Adolygiad Polisi sydd ei angen
- Yr adolygiad cynllun sydd ei angen

**Cwestiwn e)** A yw'r prif risgiau i'r ddarpariaeth wedi cael eu nodi, a sut delir â safleoedd wrth gefn?

**Ymateb y Cyngor:**

e.1 Mae Papur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith (LAP-EBD-BP3)) yn nodi'r modd i wella a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi a chynnal lefel o dwf arfaethedig yn y CDLl. Mae dialog adeiladol wedi digwydd gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol a sefydliadau darparu seilwaith, er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymgysylltu yn y ddarpariaeth a chynllunio o'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi strategaeth y Cynllun. Mae'r wybodaeth a ddarperir wedi helpu i ddangos hyfywedd ac ymarferoldeb y safleoedd a ddynodir yn y Cynllun.

e.2 Mae asesiadau o'r cyflenwadau tir ar gyfer tai dynodedig ac ymrwymedig wedi eu cynnal ac mae'r rhagdybiaethau cyflawni wedi cael eu darparu (gweler Atodiadau 2A a 3A i'r Papur Cefndir 10 A) yn seiliedig ar wybodaeth gan berchnogion safleoedd, asiantwyr a datblygwyr. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa o ran y ddau safle strategol dynodedig wedi'u cynnwys yn ymateb y Cyngor i fater 3, tra bod ymateb y Cyngor i Gwestiwn Rhagarweiniol 10 yr Arolygydd yn cynnwys gwybodaeth ar y safleoedd dynodedig gweddillol.

e.3 Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth wedi cael ei ddarparu i'r Archwiliad trwy ddatganiadau ar wahân ar safleoedd unigol. Mae'r rhain yn

cynnwys datganiadau o dir cyffredin mewn perthynas â nifer o safleoedd dynodedig, a datganiadau gan berchnogion a datblygwyr mewn perthynas â safle Porth y Gogledd a ddynodwyd. Mae gwybodaeth Porth y Gogledd wedi'i grynhoi mewn datganiad sefyllfa diwygiedig gan y Cyngor (FCC007) a ddarparwyd i'r Archwiliad yn dilyn sesiwn wrandawiad Mater 3.

e.4 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno datganiad sefyllfa diwygiedig i'r Archwiliad mewn perthynas â nifer o safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cyflenwad ymrwymedig, lle mae darpariaeth wedi cael ei gwestiynu gan rai gwrthwynebwyr. O'r cyflenwad tai ymrwymedig, fel ag yr oedd ar 1/4/21, dim ond 5 o'r 56 o safleoedd sydd heb eu datblygu eisoes, eu hadeiladu ar hyn o bryd neu ddim yn eiddo datblygwr gyda chynlluniau ar gyfer datblygu.

e.5 O'r 13 o safleoedd dynodedig yn y Cynllun, mae pedwar bellach yn cael eu hadeiladu (Broad Oak, Cei Connah, Maes Gwern, yr Wyddgrug, Ffordd Caer, Penymynydd a safle strategol Porth y Gogledd). O'r naw sy'n weddill, mae pob un â datblygwr sydd â diddordeb ac mae pedwar yn/wedi bod yn destun ceisiadau cynllunio (Cae Isa, New Brighton, Ffordd Dinbych., yr Wyddgrug, Ffordd Llaneurgain., y Fflint a Well St., Bwcle).

e.6 Fel yr eglurwyd yn ymateb y Cyngor i Fater 7, ac yn yr ymateb i Gwestiwn b) uchod, ac fel y trafodwyd yn sesiwn wrandawiad Mater 7, mae'r ddarpariaeth Tai CDLl yn cynnwys elfen sylweddol o safleoedd at raid mewn ffurf lwfans Hyblygrwydd o 1260 o aneddiadau. Mae hyn yn gyfystyr â lwfans hyblygrwydd o dros 18% o ofyniad tai y CDLl neu fel arall, lwfans hyblygrwydd o 14% a lwfans peidio â chyflawni o 23.5% o'r cyflenwad ymrwymedig, fel yr eglurwyd yn ymateb y Cyngor i gwestiwn c) yn Natganiad Mater 7.

e.7 Bydd unrhyw safleoedd eraill at raid yn cael eu penderfynu trwy ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol, a delir â hwy yn unol â'r camau adferol cysylltiedig mewn perthynas â'r mater hwnnw yn y Fframwaith Monitro.

e.8 Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ofyniad yn PCC11 neu'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) i'r CDLl nodi safleoedd at raid. Yn hytrach, rhaid i'r CDLl gynnwys lwfans hyblygrwydd priodol. Hefyd, rhaid i bod CDLl gael eu hadolygu bob 4 mlynedd o leiaf, ar ôl ei fabwysiadu.

## Datganiad Gwrandawiad CSFf – Mater 20

## ATODIAD 1: Fframwaith Monitro – Diwygiadau a Awgrymir

| LDP Objective | Strategic Policy | Policies to Monitor | Monitoring Indicator | Target | Trigger Point | Justification for Target and Trigger | Implementation | Source of Data | Action |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Indicators required by Legislation** | | | | | | | | | |
| SO11 | STR1<br>STR11<br>[HN1]<br>[HN3] | STR1<br>STR11<br>[HN1]<br>[HN3] | MI2<br>Number of net additional market and affordable houses | Total annual build rate of 463 per annum / LHMA target of 228 affordable units per annum and Affordable Housing Background Paper | Delivery below Plan's annual build rate / target for at least two consecutive years | PPW10<br>TAN1<br>PPW11<br>LDP Reg 37<br>To determine whether housing completions are in line with Plan. | FCC / Developers / Infrastructure Providers | JHLAS<br>Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| **Key Indicators applicable to all Plans** | | | | | | | | | |
| SO11 | STR1<br>STR11<br>[HN1] | STR1<br>STR11 | MI1<br>Housing land Supply<br>Annual level of housing completions | Min 5 year supply<br>AABR as specified in adopted housing trajectory | Below 5 year supply for at least two consecutive years. Over 10% below AABR for at least two consecutive years? | PPW10<br>TAN1<br>LDP Reg 37<br>PPW11<br>LDP Manual Ed.3 (Table 29) | FCC / Developers / Infrastructure Providers | JHLAS<br>Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO12 | STR2 | STR2 | MI3<br>Spatial Distribution of Housing | Spatial Distribution to settlement tiers as set out in explanation to STR2 | Variation of +/- 10% from the expected distribution for at least two consecutive years | PPW11<br>The Plan Strategy sets out an apportionment of growth to each tier in the settlement hierarchy in terms of completions, commitments and allocations……? | FCC / Developers / Infrastructure Providers | JHLAS<br>Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO11 | STR1 | STR1<br>HN1<br>HN3 | MI4<br>The level of housing completions (private and affordable) monitored against the housing requirement. | Annual build rate as per the Housing Trajectory (market and affordable) | Delivery of market / affordable housing below trajectory for at least two successive years | To ensure that the housing is being delivered<br><br>PPW11 | FCC / Developers / Infrastructure Providers | JHLAS<br>Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |

| LDP Objective | Strategic Policy | Policies to Monitor | Monitoring Indicator | Target | Trigger Point | Justification for Target and Trigger | Implementation | Source of Data | Action |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Total cumulative housing completions monitored against the anticipated cumulative completion rate | Cumulative housing completions as specified in the adopted housing trajectory | Cumulative housing completions below cumulative completion rate specified in adopted trajectory for at least two consecutive years | LDP Manual Ed.3 (Table 29) | | | |
| SO11 SO12 | STR11 | HN1 | MI5 Housing Allocations – number of dwellings delivered. | Annual completions figure as per Housing Trajectory | Annual completions falling below levels in Trajectory for at least two consecutive years | The Plans detailed housing allocations are an important part of the Plans housing provision | FCC / Developers / Infrastructure providers? | JHLAS Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring Further investigation / review required |
| SO11 SO12 | STR3 | STR3 HN1 | MI6 Warren Hall – number of dwellings delivered | Annual completions figure as per Housing Trajectory | Annual completions falling below levels in Trajectory for at least two consecutive years | Strategic Sites form an important part of Plans housing provision and the Plans strategy to deliver strategic mixed use sites | FCC / Developers / Infrastructure providers? | JHLAS Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring Further investigation / review required |
| SO11 SO12 | STR3 | STR3 HN1 | MI7 Northern Gateway – number of dwellings delivered | Annual completions figure as per Housing Trajectory | Annual completions falling below levels in Trajectory for at least two consecutive years | The Northern Gateway Strategic Sites form a significant part of Plans housing provision and the Plans strategy to deliver strategic mixed use sites | FCC / Developers / Infrastructure providers? | JHLAS Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring Further investigation / review required |
| SO11 SO12 | STR11 | STR11 | MI8 Small Sites Allowance – number of dwellings delivered | 60 dwellings per annum for each year of the remaining Plan period | Small sites completions either above or below 60 dwellings per annum for at least two consecutive years | Ensure contribution of small sites allowance to plans overall housing provision, is being achieved. | FCC Developers | JHLAS Annual Housing Land Monitoring Exercise | Keep monitoring Further investigation / review required |
| SO11 So12 | STR11 | STR11 | MI9 | 50 dwellings per annum for each year of | Windfall sites completions either above or below 50 | Ensure contribution of windfall sites allowance to plans | FCC Developers | JHLAS Annual Housing | Keep monitoring |

| LDP Objective | Strategic Policy | Policies to Monitor | Monitoring Indicator | Target | Trigger Point | Justification for Target and Trigger | Implementation | Source of Data | Action |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Windfall Allowance - – number of dwellings delivered | the remaining Plan period Annual and cumulative windfall completions as specified in the adopted housing trajectory | dwellings per annum for at least two consecutive year. Annual and cumulative windfall completions falling below levels in Trajectory for at least two consecutive years | overall housing provision, is being achieved. | | Land Monitoring Exercise | Further investigation / review required |
| SO11 | STR11 | HN3 | MI10<br>Level of affordable housing completions against Plans overarching affordable housing target | Target of affordable houses in Affordable Housing Background Paper. | Deviation of delivery by number from Affordable Housing Background Paper for at least two consecutive years | Ensure that the Plan is delivering sufficient amount of affordable housing. | FCC Planning<br>FCC Housing Strategy | JHLAS Annual Housing Land Monitoring Exercise & Housing Strategy monitoring | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO11 | STR11 | HN3 | MI11<br>Tenure of affordable housing completions | Tenure split (social rented and intermediate) in line with the need identified in LHMA and the Affordable Housing background paper | Deviation of delivery by tenure from Affordable Housing Background Paper for at least two consecutive years | Ensure that the Plan is delivering appropriate tenure of affordable housing. | FCC Planning<br>FCC Housing Strategy | Planning Register<br>Aff Housing returns | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO8<br>SO9 | STR1<br>STR8 | PE1 | MI12<br>Employment Land Take up on Allocations | Take up on employment land allocations | No take up on employment land allocations for at least two consecutive years | Ensure that development is being achieved on the Plans employment allocations | FCC Planning | Planning Register | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO8<br>SO9 | STR1<br>STR7 | STR1 | MI13<br>Job Growth | 8-10,000 jobs | No trigger | To monitor whether job growth over the Plan period meets the aspirational target | FCC Regeneration | ONS | Keep monitoring<br>Further investigation / |

| LDP Objective | Strategic Policy | Policies to Monitor | Monitoring Indicator | Target | Trigger Point | Justification for Target and Trigger | Implementation | Source of Data | Action |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | review required |
| SO11 | STR1<br>STR11 | HN3 | MI14<br>Delivery of affordable housing thresholds and percentage targets for each sub-market area | Delivery as per HN3 and Affordable Housing Background Paper | Deviation above or below the target for at least two consecutive years | Ensure that the Plan is delivering affordable housing. | FCC Planning Service<br>FCC Housing Strategy | Planning Register | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO11<br>SO1<br>SO4 | STR1<br>STR11 | HN3<br>HN1 | MI15<br>Viability – trends in house prices, land values, build costs. | Scheme viability and delivery of planning obligations in line with Viability Study | Deviation (positive or negative in terms of a 5% change in house prices) compared to Viability Study for at least two consecutive years<br>A 5% deviation (positive or negative) between house prices, land values & build costs compared to Viability Study for at least two consecutive years | To ensure that housing development remains viable in delivering planning obligations in the context of changing financial parameters | FCC Planning<br>District Valuer | | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO11 | STR1<br>STR11 | HN1 | MI16<br>Rate of development on key local housing allocations (completions, take up and infrastructure schemes) | Delivery as per housing trajectory | Deviation (positive or negative) compared to housing trajectory for at least two consecutive years | To ensure local housing allocations in HN1 are delivering at the rate specified in the housing trajectory | FCC Planning | Planning Register<br>JHLAS | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN8 | MI17<br>Gypsy and Traveller sites / pitches built on allocated sites | Identified need to be fully met by 2030. | No planning permission on allocated site | To ensure that the Plan is meeting identified needs through site implementation | FCC Planning Service<br>FCC Housing Strategy | Planning Register | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| **'Locally Specific and Contextual Indicators'** | | | | | | | | | |

| LDP Objective | Strategic Policy | Policies to Monitor | Monitoring Indicator | Target | Trigger Point | Justification for Target and Trigger | Implementation | Source of Data | Action |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br>SO12 | STR12 | HN9 | MI18<br>Gypsy and Traveller sites / pitches built on 'windfall' sites | No target | Any permission for gypsy and traveller site which is not allocated | To monitor whether allocated sites are sufficient to cater for need over the Plan period and to inform future GTAA | FCC Planning<br>FCC Housing Strategy | Planning Register | Keep monitoring<br>Further investigation / review required<br>Feed into future GTAA |
| SO16 | STR13 | EN2 | MI19<br>Loss of green barrier | No loss of green barrier unless considered to be in line with national policy | Any permission granted contrary to policy and national policy | To ensure no development which would lead to loss of green barrier or harm to its openness | FCC Planning | Planning Register | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |
| SO1<br>SO2<br>SO7<br>SO10 | STR9 | PE8 | MI20<br>Loss of retail units in Primary Shopping Areas | No loss of retail units which are contrary to policy | Granting of permission contrary to policy | To ensure that Primary Shopping Areas retain a mix of retail and other uses which contribute to the centres vitality and viability | FCC Planning<br>FCC Regeneration | Planning Register<br>Health Checks | Keep monitoring<br>Further investigation / review required |

Notes: Existing wording suggested for removal shown red

Suggested new wording shown blue

Wording in brown is possible amendment in light of objection by HBF